

Un o gas bethau
Math oedd **mwd**.

Y llysnafedd **brown**.
Y teimlad gludiog. Yr
arogl brwnt.

Doedd dim byd arall
yn waeth gan **Math**,
hyd yn oed angen
bwyta **pys** bob amser
swper!

Roedd tadau **Math**
wedi trio popeth i gael
Math hoffi **mwd**.



Mynd â **Math** i'r ffarm i
weld **moch** yn rholio yn y
mwd.

Mynd â **Math** i'r sw i weld
eliffantod yn gorwedd yn
y **mwd**.

Mynd â **Math** i'r parc i
chwarae gyda **phlant** eraill
yn y **mwd**.

A hyd yn oed prynu esgidiau glaw a chot law **lliwgar** iddo gael rhedeg trwy'r **mwd** heb faeddu.

Ond doedd dim byd wedi gweithio ac roedd **Math** yn casáu **mwd** o hyd.

Roedd **Math** mor ofn o **fwd** byddai'n gwrthod gadael y tŷ os oedd hi'n bwrw glaw rhag ofn iddo ddod ar draws **mwd**. Yn lle, roedd yn well gan **Math** chwarae yn y tŷ gyda'i degan a'i ffrind gorau, **Merfyn y deinosor melyn**.

Byddai **Math** a **Merfyn y deinosor melyn** yn mynd ar lwyth o anturiaethau gyda'i gilydd o fewn y tŷ.

Byddai'r ddau'n pigo'u **trwyn** gyda'i gilydd yn y cwpwrdd o dan y staer.

Byddai'r ddau'n tynnu lluniau o'r **Brenin Bochgoch** ar gefn y soffa.

Byddai'r ddau'n chwerthin wrth dorri gwynt a chreu **swigod** yn y bath.



Ac ar bob brynhawn Sul byddai **Math** yn mynd â **Merfyn y deinosor melyn** allan gyda fe a'i ddau dad ar wâc ar hyd afon y pentref.

Heddiw roedd hi'n ddydd Sul olaf y mis ac yn amser i'r teulu fynd am dro. Ond roedd hi'n bwrw glaw, felly roedd **Math** yn gwrthod gadael y tŷ.



Ond cyn pen dim roedd y glaw wedi peidio ac roedd hi'n amser i **Math** gerdded gyda'i rieni a **Merfyn y deinosor melyn** ar hyd yr afon.

Roedd **Math** yn hoffi sŵn sisial yr afon, yn enwedig ar ôl iddi lawio.

Wrth ddilyn ei ddadau ar hyd yr afon roedd **Math** yn gwneud ei orau las i osgoi'r holl **fwd**.

Er mwyn osgoi un darn mawr o **fwd** roedd angen i **Math** ddringo pedair carreg. Safodd ar y garreg gyntaf. Cerddodd ar hyd yr ail garreg. Neidiodd at y drydedd carreg...

Ond, tro yma roedd y garreg yn wlyb achos yr holl law a chollodd **Math** ei gydbwysedd.

Ond yn fwy na hynny,
collodd **Math** afael ar
Merfyn y deinosor melyn.

O, na!

Aeth **Merfyn y deinosor melyn** i fyny
fry yn yr awyr.

Aeth yn uwch ...
ac yn uwch...
ac yn uwch...



Yna, ddechreuodd **Merfyn y deinosor melyn** gwympto i nôl lawr i'r ddaear.

Yn agosach ac yn agosach at y **mwd** roedd **Math** wedi trio ei osgoi.

Ac yn sydyn, glaniodd **Merfyn y deinosor melyn** i mewn i'r **mwd**.

SPLAT!

Doedd **Math** methu credu'i lygaid. Roedd ei hoff degan yn y byd i gyd, a'i ffrind gorau, yn gorwedd yn y **mwd**.

Y llysnafedd **brown** roedd **Math** yn ei gasáu.

Doedd neb o gwmpas i'w helpu a doedd **Math** ddim yn gwybod beth i'w wneud.

A oedd **Math** am adael **Merfyn y deinosor melyn** yn y **mwd**?

Neu a oedd **Math** am wfftio'i ofn o **fwd** ac achub ei hoff degan yn y byd i gyd?

Cymerodd **Math** anadl ddofn. Caeodd ei lygaid yn dynn.

Mewn un naid, aeth **Math** yn syth i mewn i'r **mwd** gyda'i freichiau ar led i achub **Merfyn y deinosor melyn**, ei ffrind gorau.

Doedd **Math** methu credu'i lygaid. Roedd e wedi'i orchuddio mewn **mwd**. Wedi'i orchuddio yn y llysnafedd **brown** ac yn arogli'n frwnt.



Ond roedd **Merfyn y deinosor melyn** yn saff unwaith eto yn nwylo **Math** ac roedd e'n hapus.

Dechreuodd **Math** neidio mewn hapusrwydd yn y **mwd**.

Aeth y llysnafedd **brown** i bobman a phan ddaeth tadau **Math** yn ôl ymunon nhw yn y neidio ac aeth hyd yn oed mwy o **fwd** i bob man!

O'r diwrnod hwnnw ymlaen, bob tro byddai **Math** yn cael y cyfle, byddai'n neidio'n hapus braf yn y **mwd**.